**Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

**Cofnodion Cyfarfod**

**Dydd Iau 5 Medi 2024**

**Canolfan Tywi, Llandeilo, 6pm**

**Yn Bresennol:** **Aelodau**:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Karen Burch (KB) - Dirprwy-gadeirydd
Sean Brown (SB)
Jillie Gardner (JG)
Peter Griffiths (PG)
Wyn Owen (WO)
David Gravelle (DG)
Tara-Jane Sutcliffe (TS)

**Ysgrifennydd** **-** Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd:**
Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd Cyngor Sir Caerfyrddin (AVO)

**Ymddiheuriadau:** **Aelodau**:

Richard Leggett
Phil Snaith
Mo Rapley
David Stacey

**Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:**
Y Cynghorydd Edward Thomas – Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith Cyngor Sir Caerfyrddin
Alex Morgan – Swyddog Prosiect Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin
Phillip Morgan - Arweinydd Tîm CNC Rheoli Tir SW

Nodyn:
Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at

Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru
Mae CAMS yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at System Rheoli Mynediad Cefn Gwlad (meddalwedd mapio GIS)
Mae BHS yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gymdeithas Geffylau Prydain

| EITEM | CAMAU GWEITHREDU |
|---|---|
| **<u>Eitem 1 - CROESO AC YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Croesawodd MH y fforwm.<br><br>Darllenodd MH / CF yr ymddiheuriadau oedd wedi dod i law | |
| **<u>Eitem 2 – HYRWYDDO HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS</u>**<br><br>Gohiriwyd yr eitem i gyfarfod mis Rhagfyr oherwydd ymddiheuriadau a dderbyniwyd ac oherwydd bod cyfarfod hyrwyddo PROW ar y gorwel. | |
| **<u>Eitem 3 - ADRODDIAD BLYNYDDOL Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL</u>**<br><br>Dosbarthwyd yr adroddiad drafft terfynol i aelodau ar 29 Awst 2024.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r aelodau yn hapus gyda'r drafft. I'r rhai nad ydynt wedi darllen y drafft yn llawn, cytunodd pawb a oedd yn bresennol y byddai unrhyw sylwadau yn cael eu cyflwyno i CF erbyn 13 Medi 2024.<br><br>MH yn falch o weld Adroddiad Blynyddol wedi'i gwblhau gan Gyngor Sir Caerfyrddin , nid yw llawer o awdurdodau lleol yn cynhyrchu adroddiad blynyddol er gwaethaf y rhwymedigaeth i wneud hynny.<br><br>Holodd MH ynghylch Adolygiad Canol Tymor Cynllun Gwella Hawliau Tramwy<br><br>Cadarnhaodd CF fod sawl aelod fforwm wedi gwneud sylwadau ar y ddogfen adolygu derfynol sydd bellach wedi cael eu hystyried a'u cynnwys yn yr adroddiad lle bo hynny'n briodol.<br><br>Awgrymodd MH yr un dyddiad cau o 13 Medi ar gyfer unrhyw sylwadau ychwanegol.<br><br>Bydd CF wedyn yn mynd â'r ddwy ddogfen drwy'r broses gymeradwyo gyda'i gilydd. | POB UN<br><br>POB UN<br><br>CF |

**Eitem 4 - DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y PROSIECT GWIRFODDOLI**

Lluniwyd ffeithlun sy'n manylu ar gynnydd y prosiect gwirfoddoli hyd yn hyn:




Darperir rhagor o fanylion am y prosiect:

Sicrhawyd cyllid AIG ychwanegol i ymestyn y prosiect hyd at 31 Mawrth 2025.

Mae trafodaethau'n parhau gyda Ramblers i gyflwyno cais am arian y Loteri am gyllid pellach i ymestyn y prosiect.

Digwyddiad cydnabod gwirfoddolwyr wedi'i gynllunio ar gyfer 3 Hydref i gydnabod gwirfoddolwyr a darparu cyfleoedd rhwydweithio.

Prosiect wedi'i lywio gan ddata gwirfoddolwyr sy'n cael ei gyflwyno yn Llanfihangel Aberbythych.

Gobeithio y gellir cyflawni o leiaf un prosiect, wedi'i lywio gan ddata gwirfoddolwyr, bob blwyddyn.

Mae aelodau'r fforwm o'r farn fod system CAMSWeb yn broblem i'r prosiect, ac mae'n debygol taw hwn yw achos gwirfoddolwyr yn rhoi'r gorau iddi

Cafwyd awgrym byddai sesiynau gloywi ar CAMSWeb yn ddefnyddiol ac yn helpu gwirfoddolwyr os ydynt yn cael trafferth.

Amlygodd profiad aelodau'r fforwm wahaniaethau sylweddol ym mherfformiad CAMSWeb yn ôl cyflymder band eang yn y cartref.

Awgrymodd CF fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu lleoliadau gweithfan cyfleus gyda chyflymder rhwydwaith da i wirfoddolwyr lanlwytho data arolwg.

Cynigiodd MH fod y Fforwm Mynediad Lleol yn anfon llythyr at ddarparwr meddalwedd ynghylch: Perfformiad CAMSWeb a'r effaith y mae'n ei chael ar brosiect proffil uchel. Cytunodd yr aelodau a oedd yn bresennol MH

Awgrymodd KB nodiadau llais digidol ar gyfer cofnodi data arolygon yn gyflym yn hytrach na cheisio defnyddio mapiau papur neu CAMSWeb yng nghefn gwlad. Gellir wedyn llwytho data llais yn ddiweddarach.

Cytunodd pawb mai uwchlwytho data i CAMSWeb yn y cartref yw'r unig ateb ymarferol , nid yw defnyddio system yn y maes yn ymarferol.

| | |
|---|---|
| | |
| **<u>Eitem 5 – AILSTRWYTHURO CNC</u>**<br><br>Pryder cyffredinol ar draws y Fforymau yng Nghymru oherwydd mae'n debygol y bydd ailstrwythuro CNC yn gweld swyddi'n cael eu dileu/gostwng.<br><br>Bydd llai o staff CNC yn creu problemau, sydd eisoes yn brin o staff.<br><br>MH – Nid yw strwythur staffio CNC yn ystyriaeth i'r Fforwm Mynediad Lleol, ond dylai'r fforwm gadw golwg ar y sefyllfa.<br><br>Trafodwyd Strategaeth Hamdden newydd CNC hefyd – mae gan gyfeiriad strategol newydd oblygiadau o ran mynediad, a bydd yn llai o flaenoriaeth.<br><br>JG – Mae pren CNC wedi'i achredu gan Safon Sicrwydd Coetir y DU (UKWAS), mae'n rhaid iddynt barhau i fodloni meini prawf cymhwysedd mynediad cyhoeddus i fodloni'r safon.<br><br>JG – Bydd goblygiadau mynediad agored i safleoedd tyrbinau gwynt pellach yng nghoedwigaeth CNC. Mae'n debyg y bydd tyrbinau yn eiddo i CNC.<br><br>AVO – cysylltiad tebygol â Trydan Gwyrdd Cymru; cwmni ynni sy'n eiddo cyhoeddus yng Nghymru.<br><br>MH - diffyg ymgynghori gyda Fforymau Mynediad Lleol neu'r cyhoedd yn ehangach ar strategaeth i godi cwestiynau/pryderon. Cynnig bod Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin yn cysylltu â CNC i gwestiynu diffyg ymgynghori yn enwedig gyda Fforwm Mynediad Lleol fel ymgynghorai statudol - cytunodd yr aelodau a oedd yn bresennol. | MH |
| **<u>Eitem 6</u> – <u>DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y STRATEGAETH FARCHOGAETH</u>**<br><br>Drafft terfynol y strategaeth bron wedi'i gwblhau.<br><br>Cyfarfodydd olaf gyda rheolwyr gwasanaeth sy'n gyfrifol am y camau gweithredu a gynhwysir yn y strategaeth ddrafft sydd heb eu cwblhau o hyd. Mae angen cwblhau'r rhain cyn ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol a Chymdeithas Geffylau Prydain.<br><br>Rhagweld y bydd y strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i aelodau LAF mewn 1-2 wythnos. | |
| **<u>Eitem 7 – DIWEDDARIAD YNGHYLCH PROSIECTAU GWELLA HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS</u>**<br><br>- Prosiect gwella hawliau tramwy cyhoeddus Abermarlais bron wedi'i gwblhau.<br><br>- Prosiect gwella llwybr ceffylau Mynydd Mallaen wedi ei gwblhau ond mae pryderon | |

| | |
|---|---|
| diogelwch wedi eu codi oherwydd ardaloedd o gors ar y mynydd.<br><br>Atebion yn cael eu ceisio. Bydd y costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau i wneud llwybr yn ddiogel yn fach iawn gyda deunyddiau'n cael eu hailddefnyddio, a'u hail-leoli yn ôl yr angen.<br><br>Mae KB yn awyddus i sicrhau bod y prosiect yn dal i gael ei weld fel gwelliant rhwydwaith cadarnhaol.<br><br>Canmolodd WO y postiadau arwyddnod lliw newydd a ddefnyddiwyd sy'n gwneud defnyddio'r llwybr ceffylau yn llawer haws.<br><br>MH - O ystyried hyn, dylai aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol roi sylw manwl i gynigion prosiectau yn y dyfodol er mwyn cynyddu gwybodaeth leol a mewnbwn defnyddwyr i brosiectau.<br><br>- Mae ffurflenni cynnig prosiect wedi'u llunio er mwyn i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol gyflwyno syniadau, a bydd Cynghorau Cymuned yn eu cael maes o law.<br><br>- Cododd MH gwestiwn ynglŷn â Phont Droed Pantyrhedyn.<br><br>Bydd CF yn gofyn i'r tîm cynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus am ddiweddariad<br><br>Byddai AVO yn hoffi helpu i ddod â'r prosiect i ben, mae angen deall y sefyllfa yn iawn yn gyntaf.<br><br>MH i anfon y cofnod e-byst at AVO | POB UN<br><br>CF<br><br>MH |
| **<u>Eitem 8 – ADRODDIADAU AR BERFFORMIAD HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS</u>**<br><br>Gwnaed dadansoddiad data ar gyfer y cyfarfod hwn ond ychydig o newid sydd yn yr adroddiad.<br><br>TS – a oes unrhyw beth yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r ffigurau sy'n cynyddu'n barhaus?<br><br>CF - mae ffyrdd newydd o weithio a ddatblygwyd yn yr Uned Mynediad i Gefn Gwlad dros y 2-3 blynedd diwethaf yn anelu at weld nifer y problemau yn disgyn i lefelau haws eu rheoli.<br>Mae rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus gwledig mor eang yn debygol o weld cyfradd uchel o roi gwybod am broblemau bob amser.<br>Nid yw'r adroddiadau materion presennol yn rhoi'r darlun llawn, nid yw agweddau eraill ar reoli PROW yn cael sylw.<br>Adroddiad newydd yn cael ei lunio i roi darlun mwy cyflawn o'r gwasanaethau a ddarperir i'r Fforwm Mynediad Lleol.<br><br>TS – A ellid llunio crynodeb i'w roi ar y wefan? Hyrwyddo gwaith presennol hawliau tramwy cyhoeddus<br><br>CF – syniad da, byddai'n werth edrych ar y sefyllfa. | CF |

| | |
|---|---|
| **<u>Eitem 9 – AWGRYMIADAU PROSIECT FFORM MYNEDIAD LLEOL A DIWEDDARIAD CYLLID GRANT</u>**<br><br>Mae aelodau'r fforwm yn awyddus i gymeradwyo creu swydd Swyddog Prosiect gan fod y rôl yn cynnwys dyletswyddau cyllid grant hanfodol, mae'n hanfodol i'r rôl gael ei chadw?<br><br>Cadarnhaodd CF fod y swydd yn un barhaol.<br><br>Amlinellodd AVO yn gryno dargedau arbedion cyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod, mae sefyllfa'r gyllideb yn mynd yn fwyfwy anodd, mae cyllid allanol yn hanfodol. | |
| **<u>Eitem 10 – CAMAU YN CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF</u>**<br><br>- Adolygiad Canol Tymor Cynllun Gwella Hawliau Tramwy<br><br>MH - mae'r ddogfen yn glir, yn hawdd ei dehongli ac mae'r perfformiad hyd yma yn foddhaol.<br>13 Medi dyddiad cau ar gyfer sylwadau Fforwm Mynediad Lleol a gytunwyd eisoes yn eitem 3<br><br>- Llwybr Dyffryn Tywi<br><br>Ble rydym ni arni nawr?<br>A allai'r Fforwm Mynediad Lleol gael diweddariad nawr a diweddariad pellach ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr.<br>Bydd CF yn gofyn am y ddau. | |
| **<u>EITEM 11 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL</u>**<br><br>**Pen-bre (Parcio i Farchogion)**<br><br>Nid yw pob deiliad trwydded Cyngor Sir Caerfyrddin yn gymwys i barcio mewn bae newydd, nid yw hyn yn glir, mae angen arwydd yn dweud 'faniau ceffylau yn unig' neu debyg. Mae'r broses i gyd wedi'i chyfathrebu'n wael.<br><br>Bydd CF yn trosglwyddo'r awgrym am arwyddion i'r tîm Rheoli Traffig<br><br>**Brownhill**<br><br>Mae'r unig ddiweddariad sydd ar gael yn awgrymu bod y prosiect yn mynd rhagddo.<br><br>**Llwybrau Beicio Sir Gaerfyrddin**<br><br>Angen y diweddaraf ynghylch y sefyllfa o ran llwybrau beicio ar hawliau tramwy cyhoeddus, a allai rhywun gyflwyno i'r Fforwm Mynediad Lleol?<br><br>Bydd CF yn gofyn am y diweddariad<br><br>**Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd**<br><br>Cynhelir y cyfarfod nesaf 15 Hydref, 2pm | CF<br><br>CF |

| | |
|---|---|
| **Is-grŵp Hyrwyddo Hawliau Tramwy Cyhoeddus**<br><br>Cynhelir y cyfarfod nesaf 26 Medi, 1pm<br><br>**Cadw'r pellter cywir oddi wrth Feicwyr - arwyddion cynghori**<br><br>Dywedodd PG fod arwyddion diogelwch beicio i ddechrau wedi'u hargraffu a'u codi gyda'r dyluniad anghywir, ond bellach mae rhai newydd â'r dyluniad cywir wedi'u codi yn eu lle. A ellir dal i ddefnyddio'r gyfres gyntaf o arwyddion mewn mannau eraill yn y Sir?<br><br>Bydd CF yn holi'r tîm Rheoli Traffig | CF |
| **Ymgynghoriad Cynllunio**<br><br>WO - ddim yn derbyn ymgynghoriadau.<br><br>CF - codwyd mater gydag ymgynghoriadau cynllunio, ar hyn o bryd yn chwilio am ateb gyda'r Rheolwr Datblygu Cynllunio. Dylai ymgynghoriadau gael eu cynnal yn y modd arferol cyn hir. | CF |
| **Rali Ceredigion**<br><br>Dywedodd JG fod y Grŵp Clwstwr Twristiaeth yn dosbarthu holiadur adborth ar effaith digwyddiad Rali. Cwestiynau agored i gasglu pob barn/profiad. | POB UN |
| **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**<br><br>Rhoddodd TS wybod i'r aelodau am Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Roedd sefydliadau ar Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cael eu hethol i mewn/allan yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Dywedodd TS, cynrychiolydd OSS gynt ar y bwrdd, sy'n sefyll i lawr eleni, wrth aelodau'r Fforwm i ystyried pleidleisio dros sefydliadau mynediad a awgrymwyd ar gyfer y Bwrdd, fel yr OSS, sy'n cefnogi'r agenda mynediad. | POB UN |
| **Ymgynghorydd Hawliau Tramwy Cyhoeddus**<br><br>KB - A yw'r tîm Mynediad Cefn Gwlad yn dal i ddefnyddio ymgynghorydd Hawliau Tramwy Cyhoeddus?<br><br>CF - defnydd ymgynghorydd yn barhaus, dewiswyd ymgynghorydd newydd yn 2023, mae'n darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer achosion cymhleth. | |
| **CGHT**<br><br>KB – methu dod o hyd i atodiadau i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin<br><br>Bydd CF yn mynd ar drywydd hyn.<br><br>Cyfarfod yn cael ei gau | CF |

| | |
|---|---|
| **<u>Eitem 12 - Y Cyfarfod Nesaf</u>**<br><br>9 Rhagfyr, 4pm - Caerfyrddin | |